


# The Eureka's

# Pecyn cymorth i athrawon 2025

**IOP** Institute of Physics

Cyhoeddwyd 2025











# I ysbrydoli cenhedlaeth gyfan

Beth am gymryd rhan yn 'The Eurekas' eleni:  
cystadleuaeth ledled y DU ac Iwerddon ar gyfer myfyrwyr  
11-16 oed lle'r ydym yn eu herio i ateb y cwestiwn:





**Sut all Ffiseg eich helpu i  
weld y byd yn wahanol?**



# Beth yw 'The Eureka's'?



Mae 'The Eureka's' yn rhan o'r **ymgyrch Torrwrch y Ffiniau** sydd wedi'i greu gan y Sefydliad Ffiseg i ehangu'r ystod o bobl sy'n astudio ffiseg ar ôl troi'n 16 oed a sicrhau bod yr ystod honno o bobl yn fwy amrywiol.

Mae gan bob plentyn ddawn neu sgîl unigryw – ond nid ydynt bob amser yn cael y cyfle i rannu'r ddawn neu'r sgîl dan sylw. Mae **'The Eureka's'** yn gyfle i bob myfyriwr ddisgleirio drwy archwilio'r hyn y maent yn frwdfrydig yn ei gylch fel unigolion a chyfuno hynny â'r byd ffiseg.

P'un a ydych yn addysgu celf, cerddoriaeth, Cymraeg neu addysg gorfforol, gall pob athro/athrawes ysbrydoli myfyrwr **i feddwl yn wahanol am ffiseg.** Gallwch gymell dysgwyr ifanc drwy eu helpu i ystyried ble y mae rhywbeth yn gorgyffwrdd â ffiseg, a'u helpu i arddangos eu canfyddiadau mewn fformat y maent yn gyfforddus gydag ef.



# Sut y gall athrawon gymryd rhan



Rydym yn gofyn i athrawon gynorthwyo'r Sefydliad Ffiseg i gael eu myfyrwyr i ddangos diddordeb yn yr her hon. Mae yna wobrau i'w hennill ar gyfer y myfyrwyr yn ogystal â'u hysgolion, felly rydym am i gymaint ag sy'n bosibl o bobl deimlo eu bod yn rhan o 'The Eurekas' a theimlo'r cyffro sy'n perthyn i'r gystadleuaeth.

Yn y ddogfen hon, rydym wedi gosod rhai sleidiau y gall athrawon ledled y DU ac Iwerddon eu defnyddio i'w helpu i esbonio beth yw 'The Eurekas' a sut y gall myfyrwyr gymryd rhan.

- **Esboniwch i'r myfyrwyr beth yw 'The Eurekas'**
- **Cyfeiriwch nhw at y cyfarwyddiadau**
- **Ceisiwch eu cymell â'r gwobrau sydd i'w hennill**
- **Dangoswch enghreifftiau iddynt**







Mae croeso i chi ddefnyddio'r sleidiau hyn mewn gwersi neu wasanaethau, i gyflwyno'r syniad i'ch dosbarthiadau, a chysylltwch â ni yn [campaigns@iop.org](mailto:campaigns@iop.org) i gael unrhyw wybodaeth bellach.



# NODYN PWYSIG

Oherwydd yr angen i ddiogelu plant, dim ond drwy athrawon a rhieni/gofalwyr y bydd y Sefydliad Ffiseg yn derbyn ceisiadau. Darllenwch delerau ac amodau'r gystadleuaeth yn ofalus i gael rhagor o wybodaeth.








**IOP** Institute of Physics

# The Eureka's



See physics differently






**Yn frwdfrydig ynghylch a**

**Gwyddoniaeth, Cerddoriaeth,**

**Celf, Chwaraeon...**


**Rhywbeth arall?**

Beth bynnag yr ydych yn frwdfrydig yn ei gylch, sianelwch eich creadigrwydd at rywbeth arbennig gyda **'The Eurekas'**.






# Beth yw 'The Eurekas'?




Cystadleuaeth flynyddol ym maes ffiseg yw 'The Eurekas', ar gyfer myfyrwyr 11-16 oed yn y DU ac Iwerddon, lle'r ydym yn eich herio i **feddwl yn wahanol am ffiseg.**



Dychmygwch fod y byd yn bos enfawr y mae angen ei ddatrys, o heriau byd-eang megis mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd i bethau mwy personol megis cael eich cacennau i godi'n berffaith neu ddeall y strategaeth sy'n arwain at gôl dyngedfennol. **Hoffem eich herio i ddangos i ni sut y gall ffiseg ddarparu'r atebion.**

Rydym am weld ceisiadau sy'n eich dangos yn rhyngweithio â ffiseg mewn modd creadigol sydd efallai'n annisgwyl – wrth i chi archwilio sut y gall ffiseg ddarparu'r atebion i'r dirgelion yn ein bywydau.




Bydd panel ysbrydoledig o feirniaid yn penderfynu pa geisiadau sy'n dangos gwreiddioldeb a chreadigrwydd eithriadol, a bydd un enillydd cyffredinol yn cael **£1,000/€1,200** yn ogystal â **£250/€300** i'w ysgol. Bydd y ddau sy'n ail yn cael **£500/€600** yr un, a bydd chwe gwobr o **£250/€300** yn cael eu dyfarnu i gais rhagorol gan rywun o bob oedran, o 11 i 16.

# Gwyliwch y fideo



Gwyliwch fideo 'The Eureka's' i gael gwybod mwy am y gystadleuaeth.



# Cael ysbrydoliaeth



I gael ysbrydoliaeth, edrychwch ar geisiadau llynedd: [theeurekas.co.uk/get-inspired](https://theeurekas.co.uk/get-inspired)

We will replace these when the website is up




# Byddwch yn greadigol



Tybed beth y gallech chi ei wneud?

- **Creu gwaith celf** sy'n dangos sut y byddech yn datrys **problem** yr ydych yn frwdfrydig yn ei chylch, boed yn broblem fyd-eang neu'n broblem leol
- **Creu cerflun** o ddyfais ym maes iechyd, sydd wedi gwella ansawdd eich bywyd chi neu fywyd rhywun sy'n annwyl i chi
- **Cyfarwyddo fideo** sy'n esbonio'r ffiseg sy'n perthyn i'ch hoff gamp ym maes chwaraeon
- **Canu cân** neu chwarae offeryn, ac esbonio sut y mae ffiseg yn gwneud i gerddoriaeth ddigwydd
- **Meddwl am eich arwr** - rhywun yr ydych yn ei edmygu – ac esbonio'r ffiseg sy'n perthyn i'r hyn y mae'n enwog amdano
- **Gwnïo, pobi neu adeiladu rhywbeth,** a dangos i ni sut y mae ffiseg yn golygu ei fod yn bosibl
- **Troi eich hoff gêm ymlaen,** a dangos sut y mae'n defnyddio ffiseg i fod yn realistig



Cyhyd â bod eich cais yn dangos **sut y mae ffiseg yn gallu ein helpu i ddatrys dirgelion** bydd gennych siawns dda o ennill y prif wobrau.

Gallwch esbonio'r broses feddwl hon yn eich llythyr eglurhad (mae rhagor o wybodaeth i'w gael yn **Canllawiau i'r Gystadleuaeth** ).



# Y camau nesaf...

Allwch chi feddwl yn syth am unrhyw syniadau?  
Dechreuwch eu nodi ar bapur a byddwch yn greadigol!



Gofynnwch i'ch athro/athrawes neu'ch rhiant/gofalwr am help  
gyda syniadau ac am wybodaeth ynglŷn â dyddiadau cau.

**A chofiwch ... feddwl yn wahanol am ffiseg.**

